

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Alwyn E Jones

---

### Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

2/4/2019

**Presennol:** Alwyn E Jones (Cadeirydd), Rhodri Jones, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Lindsey Ellis-Edwards, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Alwyn Roberts, Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**1980 Croesawyd pawb** a derbyniwyd ymddiheuriadau Beryl Hughes Griffiths a Huw P Roberts.

**1981 Buddiant:** Derbyniwyd datganiad buddiant gan Huw Antur ym materion cynllunio 1990 a + d.

**1982 Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mawrth 5ed, 2019.

**1983 Materion y Clerc :**

- i. Cadarnhawyd manylion Cylch Gorchwyl Is-bwyllgor Cyfleusterau.
- ii. Seisnigeiddio enw ar dŷ lleol: cytunwyd i anfon at Gyngor Gwynedd i dynnu sylw fod y Swyddfa Post yn rhestru "Cottage" ar ôl yr enw cynhenid, er i Gyngor Gwynedd gadarnhau nad oes unrhyw gais wedi ei wneud i newid oddi wrth yr enw Cymraeg.
- iii. Mae'r penseiri wedi derbyn hawl gan y Cyngor i gael mynediad er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw ar Eglwys Deiniol Sant; dywedwyd byddai'r gwaith yn cychwyn yn y dyfodol agos.

**1984 Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Cynghorydd Gwynedd, Alan Jones Evans, a soniodd am y gwaith sy'n cael ei wneud er mwyn sicrhau gofal da yn y cartref i'r rhai anghenus. Mae hyn yn golygu llawer mwy o gydweithio rhwng lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn cynnwys aelodau o'r teulu a'r gymuned y y trefniadau er mwyn sicrhau darpariaeth o'r hyn y mae'r unigolyn yn ei ddymuno. Bydd y trefniadau'n cael eu gwneud yn lleol.

**1985 Materion Eiddo'r Cyngor:**

Adroddodd Karl Jones ar argymhellion yr is bwyllgor cyfleusterau a gynhaliwyd ar 1/4/19 i uwchraddio'r cyfeusterau cyhoeddus. Derbyniwyd yr argymhellion a diolchwyd unwaith eto i Karl Jones am ei gynnig i lunio'r rhaglen waith a cheisio prisiau gan adeiladwyr sydd wedi dangos diddordeb.

**MEWNOL:** *Trafodwyd y prisiau a dderbyniwyd am waith clirio coed wrth y fynwent a'r prisiau a dderbyniwyd am drwsio ffens wrth y fynwent. Cytunodd yr Is-gadeirydd i gysylltu gyda'r contratiwyr llwyddiannus. Cytunwyd i adael mater plygu gwrych nyrs y fynwent am y tro. Cytunwyd i rannu'r coed ymysg yr henoed.*

Adroddodd yr is-gadeirydd ar brosiect Llwybr y Cei: disgwylir ymweliad gan Swyddog o Barc Cenedlaethol Eryri cyn symud ymlaen at ail ran y prosiect. Cytunwyd fod y

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Alwyn E Jones

---

gwaith tocio a wnaethpwyd yn ystod rhan gyntaf y prosiect wedi bod yn allweddol i welliant yng nghyflwr y llwybr. Cytunwyd i anfon at Gyngor Gwynedd i ddiolch am y gwaith a wnaethpwyd yn ddiweddar ar wyneb y llwybr.

Mae'r gwaith o roi ffelt newydd ar do sied y fynwent mewn llaw.

**1986 Paneli Gwybodaeth:** Derbyniwyd gwybodaeth fod y cais cynllunio wedi ei gyflawni a bod y paneli ar fin cael eu cwblhau. Derbyniwyd yn ddiolchgar rhoddion gan noddwyr lleol tuag at gost y paneli. Anfonwyd cais at Barc Cenedlaethol Eryri i dalu'r grant CPE a gytunwyd arno.

**1987 Materion ariannol:** derbyniwyd adroddiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol a chytunwyd i gynnal Is-Bwyllgor Cyllid cyn y cyfarfod nesaf – SAC i drefnu.

**1988 Materion lleol:** Cytunwyd i glirio'r fynwent cyn y Pasg – Swyddog y Fynwent i drefnu.

**1989 Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y Cynrychiolwyr, Huw Antur a Alwyn E Jones. Mae prysurdeb mawr yn yr Henblas ac mae 2 gais am grant wedi eu cyflwyno am waith datblygol.

**1990 Gohebiaeth:**

- 1. Parc Cenedlaethol Eryri:** Cymeradwywyd ceisiadau cynllunio:
  - a. NP5/71/L319C Codi estyniad deulawr yn y cefn, Tyddyn Felin
  - b. NP5/71/433A Diwygiad i Ganiatad Cynllunio i gadw pont dros Afon Lliw
  - c. NP5/71/398C Sied, Pendraw, Llanuwchllyn
  - d. NP5/71/L316B Codi adeilad aml bwrpas ac adeilad storio yng Nglan Llyn Isaf
- 2. Llywodraeth:** Swyddfa Archwilio Cymru – derbyniwyd gwybodaeth am newid yn y trefniadau archwilio ar ôl eleni.
- 3. Gwynedd:** Derbyniwyd Rhaglen Waith mis Ebrill a chytunwyd i geisio mwy o fanylion ar "Llwybr Rhif 7 Tal y Bont: Tynnu pont gerdded lawr"
- 4. Arall:**
  - i. Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol y Berwyn: Ystyriwyd cais am arian. Cytunwyd i ofyn am fanylion pellach ac am fantolen.
  - ii. Cytunwyd i gefnogi'r ymdrechion i wrthwynebu israddio Adran Argyfwng fasgwlwr Ysbyty Gwynedd.

*Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 7/5/19 yn y Neuadd Bentref*